



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gyfun Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd
Penlan
Swansea
SA5 7BU**

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2019

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn â Ysgol Gyfun Bryn Tawe

Ysgol uwchradd Gymraeg sydd yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 11-18 oed yw Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yng ngogledd Abertawe ac mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Abertawe. Mae 30.2% o'r disgyblion yn byw yn ardaloedd 20% mwyaf difreintiedig Cymru.

Mae 800 o ddisgyblion yn yr ysgol, sydd yn uwch nag ar adeg yr arolygiad diwethaf ym Mawrth 2013. Mae 110 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Mae 10.6% o'r disgyblion yn gymwys i brydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r canran cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd, sef 16.4%. Mae 24% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol, sydd ychydig yn uwch na'r canran cenedlaethol o 22.9%. Mae 1.8% ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd yn debyg i'r ffigur cenedlaethol.

Daw tua 10% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad ar yr aelwyd ac mae bron bob un yn rhugl yn y Gymraeg. Mae gan yr ysgol uned iaith, lleferydd a chyfathrebu cyfrwng Gymraeg ar gyfer disgyblion oedran cynradd ac uwchradd dinas a sir Abertawe.

Ychydig iawn o'r disgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Nid oes unrhyw ddisgybl â Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Mae Ysgol Bryn Tawe yn ysgol Arloesi'r Cwricwlwm ac yn gweithio'n agos gydag ysgolion eraill er mwyn gwireddu argymhellion dyfodol llwyddiannus i gynllunio a gweithredu cwricwlwm newydd i Gymru.

Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd yn 2014. Mae dirprwy, tri phennaeth cynorthwy a dau aelod cyswllt ar secondiad, hefyd ar yr uwch dîm arwain.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae Ysgol Bryn Tawe yn gymuned agored, egnïol sydd â lles disgyblion wrth galon ei gwaith. Mae disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni yn cyfleu balchder amlwg o fod yn rhan o gymuned yr ysgol ac mae perthnasau adeiladol, clos rhyngddynt oll.

Nodwedd arbennig yw cyfraniad disgyblion at waith yr ysgol trwy'r cyfleoedd amryfal sydd ganddynt i leisio eu barnau a dylanwadu ar benderfyniadau. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn gyffredinol yn eu hastudiaethau academaidd ac yn datblygu'n llwyddiannus fel dinasyddion gweithredol, cyfrifol a chwrtais.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad yn gryfder nodedig. Mae staff yn gyson addasu'r ddarpariaeth er mwyn ymateb yn llwyddiannus i anghenion y disgyblion. Mae'r arlwy eang, gyfoethog o brofiadau allgyrsiol a'r cwricwlwm amrywiol yn cyfrannu'n werthfawr at brofiad addysgol y disgyblion.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol ac yn cyfleu uchelgais amlwg ar gyfer gwaith yr ysgol. Maent yn rhoi pwyslais clir ar wella safonau ac addysgu a darparu'r gorau ar gyfer pob disgybl o fewn awyrgylch gynhaliol.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Rhagorol
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Rhagorol
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Gwella cyflawniad disgyblion cyfnod allweddol 4, yn enwedig yn mathemateg a gwyddoniaeth a chyflawniad disgyblion mwy abl
- A2 Gwella ansawdd yr addysgu mewn lleiafrifi o wersi, gan gynnwys disgwyliadau uchel o ran her a defnydd y disgyblion o'r Gymraeg
- A3 Gwella ansawdd gwaith lleiafrif o arweinwyr canol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â llais y disgybl a datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer medrau digidol disgyblion i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwersi ac mewn arholiadau allanol. Maent yn adalw a chymhwyso gwybodaeth flaenorol yn hyderus ac yn datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn effeithiol.

Cryfder amlwg yw medrau darllen disgyblion. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth ddarllen er mwyn cywain gwybodaeth ac yn sgimio ac yn sganio testunau yn llwyddiannus. Er enghraifft, gallant leoli gwybodaeth yn effeithlon wrth ddarllen tystiolaeth am fanteision ac anfanteision caniatáu i ddisgyblion ddefnyddio ffonau symudol mewn ysgolion. Mae llawer yn hyderus yn eu defnydd o ystod o strategaethau darllen, megis anodi ac aroleuo, ac yn ymdrin yn fedrus ag amrywiaeth o ddeunyddiau darllen ffeithiol a llenyddol. Maent yn ymateb yn sensitif i gynnwys testunau darllen ac yn dehongli ystyr yn effeithiol. Mae'r mwyafrif yn dadansoddi arddull ysgrifennu yn grefftus ac yn arddangos dealltwriaeth gadarn o dechnegau ysgrifennu a'u heffaith. Er enghraifft, maent yn dadansoddi iaith hysbysebion yn llwyddiannus yn eu gwersi 'Camu' ac yn cymharu arddull dwy stori fer yn fedrus yn eu gwersi Cymraeg. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn dadansoddi arddull mewn digon o fanylder nac yn defnyddio termau technegol yn bwrpasol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n barchus ar ei gilydd ac ar eu hathrawon ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn ofalus. Mae llawer yn cyfrannu'n bwrpasol at drafodaethau dosbarth ac mae lleiafrif yn gwneud hynny gyda brwdfrydedd amlwg, er enghraifft pan drafodant yn eu gwersi addysg grefyddol yr heriau a wynebier gan bobl grefyddol. Mae ychydig yn cynnig ymatebion cyfyngedig ar lafar ac yn amharod i gyfrannu at drafodaethau. Mae llawer yn egluro eu safbwyntiau yn glir ac yn cynnig rhesymau synhwyrol am eu barnau. Maent yn hyderus yn eu defnydd o eirfa pynciol. Yn eu gwersi Cymraeg, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ystod gallu yn cyfathrebu'n huawdl ac yn hyderus ar lafar, a meddant ar eirfa gyfoethog. Fodd bynnag, yn tua hanner y pynciau eraill mae lleiafrif o ddisgyblion yn rhy barod i ddefnyddio geiriau Saesneg ac mae llawer yn defnyddio Saesneg wrth drafod ymysg ei gilydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn trefnu eu gwaith ysgrifenedig yn bwrpasol ac yn paragraffu ac atalnodi eu gwaith yn gywir. Wrth ysgrifennu, mae ganddynt eirfa gadarn yn y Gymraeg a Saesneg a defnyddiant dermau pynciol yn addas. Mae ychydig o ddisgyblion yn meddu ar eirfa aeddfed, soffistigedig. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ystod gallu yn ysgrifennu darnau estynedig cryf, megis pan ysgrifennant lythyr at gyngor dinas Lerpwl yn gwrthwynebu boddi Tryweryn neu ddyddiadur plentyn ifanc ym mhwl glo lleol Penlan. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ofynion gwahanol gynulleidfaoedd a ffurfiau ysgrifennu ac mae gan leiafrif afael grefftus ar gywair iaith, fel pan ysgrifennant araith berswâd yn annog chwyldro yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae lleiafrif yn gwneud camgymeriadau sillafu cyson ac nid ydynt yn cymryd digon o gyfrifoldeb dros gywiro eu gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio ystod o dechnegau trafod rhif a defnyddiant rifau cyfan, degolion a ffracsiynau yn gymwys. Maent yn defnyddio unedau addas ar gyfer hyd, cyfaint ac arwynebedd ac yn mesur ac adnabod onglau

yn gywir. Mae llawer yn defnyddio eu medrau rhif yn effeithiol er mwyn datrys problemau bob dydd megis cyfrifo llog, elw a cholled wrth brynu a gwerthu nwyddau. Yn gyffredinol, maent yn llunio graffiau a siartiau yn addas, er enghraifft pan greant bolygon amllder i ddangos nifer y geiriau mewn 100 brawddeg mewn llyfr. Fodd bynnag, mae graffiau lleiafrif o ddisgyblion yn anniben. Mae llawer yn dadansoddi graffiau yn briodol ac yn dod i gasgliadau synhwyrol am y data, megis pan maent yn astudio'r newid yng nghuriad y galon wrth yfed diod llawn caffin.

Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio rhaglenni Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) sylfaenol er mwyn cyflwyno gwybodaeth a chydweithio ar brosiectau. Mae disgyblion iau, yn arbennig, yn datblygu eu huwch-fedrau TGCh yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mewn gwersi dyniaethau maent yn creu ymholiadau mewn cronfeydd data ynghylch mewnfudwyr i Brydain er mwyn dehongli a fu argyfwng mudo yn 2015 ai peidio. Trwy'r dasg hon maent hefyd yn datblygu eu hymwybyddiaeth o wahaniaeth a'u hymdeimlad o ddinasyddiaeth fyd-eang yn llwyddiannus. Enghraifft arall yw sut mae disgyblion yn creu algorithmau er mwyn galluogi robot i symud ac yn codio er mwyn creu cynlluniau 2D ar gyfer addurniadau Nadolig, yna'n eu hargraffu ar argraffydd 3D mewn gwersi technoleg.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol ar draws ystod o bynciau. Maent yn ysgrifennu'n greadigol at amryfal bwrpasau megis ysgrifennu storiâu arswyd ac yn ymarfer eu creadigrwydd drwy greu ryseitiau gwreiddiol yn eu gwersi arlwygo a chreu peintiadau i gynrychioli eu dehongliadau o'r gerdd 'Glas' yn eu gwersi 'Camu'. Yn eu gwersi drama, mae disgyblion yn arbrofi gyda thechnegau llwyfannu a sain er mwyn creu effaith dramatig ar gynulleidfa wrth gyfarwyddo golygfa benodol o waith dramodydd Cymraeg. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau corfforol yn llwyddiannus yn ystod gwersi addysg gorfforol ac mewn clybiau chwaraeon poblogaidd. Er enghraifft, maent yn herio eu hunain trwy gwblhau ymarferion gynyddol anodd o fewn gweithgareddau cylched.

Mae gan llawer o ddisgyblion fedrau meddwl cadarn. Maent yn hyderus wrth ddod i benderfyniadau ac yn ystyried dadleuon a gwrth-ddadleuon ar bynciau amrywiol yn fedrus. Er enghraifft, maent yn cyfiawnhau eu dewisiadau yn synhwyrol wrth egluro eu dewis o ddeunydd creu wrth ddylunio daliwr pensiliau yn technoleg. Gall llawer werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn llwyddiannus, yn enwedig pan mae ganddynt feini prawf llwyddiant penodol.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg yn y mwyafrif o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4. Yn y dangosydd lefel 2 sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn well neu'n debyg i berfformiad ysgolion tebyg ers pedair blynedd. Mae'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn debyg i neu'n well na mewn ysgolion tebyg yn nhair o'r pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yr ysgol yn y dangosyddion lefel 1 a 2 yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg dros yr un cyfnod. Mae cyfran y disgyblion sydd yn ennill 5 gradd TGAU A*-A neu gyfwerth wedi bod yn anwastad dros amser ac mae ychydig yn is nac mewn ysgolion tebyg yn 2018.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad merched yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 yn gyson well na pherfformiad merched

mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad bechgyn hefyd yn gyffredinol well neu'n debyg i berfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg dros yr un cyfnod. Dros amser, mae perfformiad y nifer fach o ddisgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad eu cyfoedion mewn ysgolion tebyg, ond mae eu perfformiad wedi dirywio yn 2018. Nid oes disgybl wedi gadael yr ysgol yn ddigymhwyster ers dros saith mlynedd.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3 a'r dangosyddion sydd yn cynnwys 3 gradd A*-C a 3 gradd A*-A neu gyfwerth unai'n debyg i neu'n well nag ydyw mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau ehangach yn is nag mewn ysgolion tebyg yn nhair o'r pedair blynedd diwethaf.

Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae disgyblion ysgol Bryn Tawe yn lladmeryddion clodwiw dros yr ysgol. Nodwedd arbennig yw eu balchder yn eu hysgol a'r gymuned leol, ynghyd â'r berthynas hynod gadarnhaol sydd rhyngddynt â'i gilydd ac â staff ac ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yr ysgol.

Mae dylanwad disgyblion ar fywyd a gwaith yr ysgol yn bellgyrhaeddol. Trwy gyfrwng y cyngor ysgol a'r chwe is bwyllgor ac amrywiaeth o gyfleoedd eraill, mae disgyblion yn ymgymryd yn llawn, a gyda brwdfrydedd, â rolau a chyfrifoldebau arwain. Mae hyn yn gryfder arbennig. Er enghraifft, mae aelodau'r pwyllgor Cymreictod yn cynnal sesiynau amrywiol ac ymarferol yn yr ysgolion cynradd partner er mwyn hyrwyddo'r iaith. Mae'r pwyllgor dysgu ac addysgu yn angerddol dros ehangu gwybodaeth ddiwylliannol disgyblion. Trwy gydweithio'n agos ag athrawon, maent wedi sicrhau pwyslais cryfach ar hanes a diwylliant Cymru ar draws y cwricwlwm. Maent hefyd wedi cyflwyno eu syniadau ynghylch dysgu ac addysgu effeithiol i'w hathrawon. Nodwedd eithriadol arall yw cyfraniad arbennig yr arweinwyr digidol. Maent yn cydweithio'n agos â chwmnïau rhyngwladol ac wedi manteisio ar achrediad hyfforddi. Maent yn cynnal hyfforddiant effeithiol i 'ddewiniaid digidol' yr ysgolion cynradd partner a sesiynau gwerthfawr i staff ar raglenni TGCh.

Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn gweithredu fel mentoriaid gwerthfawr i'r disgyblion iau. Enghraifft o hyn yw cyfraniad hynod fuddiol disgyblion Blwyddyn 10 wrth iddynt fentora disgyblion fel rhan o'r cynllun trosglwyddo o'r ysgol gynradd. Maent yn ymweld â'r ysgolion cynradd, yn mynychu cwrs preswyl gyda disgyblion Blwyddyn 7 ac yn cynnal sesiynau penodol yn ystod amser cofrestru i gynorthwyo iddynt ymsefydlu'n sydyn yn yr ysgol.

Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn ardderchog. Mae'r rhan fwyaf yn hynod groesawgar gydag ymwelwyr, ac yn gwrtais a pharchus tuag at ei gilydd a staff.

Mae'r rhan fwyaf yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth arnynt ac yn teimlo bod athrawon a staff eraill yn delio'n dda ag unrhyw bryderon. Maent yn ymwybodol iawn bod cefnogaeth ar gael iddynt, beth bynnag fo'u hangen.

Yn y gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu. Maent yn cyrraedd yn brydlon, yn ymdawelu'n sydyn ac yn barod i weithio'n syth. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n dda trwy gydol y wers. Mae llawer yn arddangos cymhellant cryf ac yn cyfleu balchder yn eu gwaith. Mae'r disgyblion hyn yn arddangos medrau dysgu annibynnol cadarn ac yn dyfalbarhau â thasgau yn llwyddiannus. Nid ydynt yn holi eu hathrawon am gymorth yn syth, yn hytrach, maent yn arddangos dycnwch trwy ddefnyddio adnoddau megis arddangosfeydd dosbarth a matiau iaith neu'n holi eu cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n dda mewn parau a grwpiau.

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach trwy fwyta diet cytbwys ac ymarfer corff rheolaidd. Mae cyfraddau uchel iawn o ddisgyblion yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys sesiynau chwaraeon niferus a phrofiadau diwylliannol a chelfyddydol gwerthfawr. Er enghraifft, maent yn ymgymryd yn frwd mewn cystadlaethau siarad cyhoeddus yn y Gymraeg a Saesneg, gweithdai perfformio ar waith Shakespeare, gweithgareddau eisteddfodol ac amryfal glybiau ffitrwydd megis dawnns a hunan-amddiffyn.

Mae'r disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus iawn fel dinasyddion moesegol a goddefgar. Maent yn hynod frwdfrydig yn eu hymdrechion i drefnu gweithgareddau elusennol. Maent yn gwneud cyfraniadau ystyriol i'r gymuned leol trwy gasglu tegau ar gyfer ysbyty cyfagos. Maent hefyd yn codi symiau sylweddol o arian i achosion lleol a chenedlaethol, fel canolfan ganser Maggie's Centre a'r elusennau Young Minds a Phlant Mewn Angen. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill.

Mae cyfraddau presenoldeb yn gryf dros amser ac yn cymharu'n ffafriol â chyfraddau presenoldeb mewn ysgolion tebyg.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sefydlu awyrgylch gynhwysol a chartrefol yn eu dosbarthiadau ac maent yn meithrin perthnasau gwaith parchus a chynhyrchiol gyda disgyblion. Mae ganddynt hefyd wybodaeth bynciol gadarn.

Mewn llawer o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac maent yn paratoi adnoddau ysgogol sy'n cymell ac ennyn cyfranogiad disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn cynllunio'n fwriadus gyfres o weithgareddau buddiol sy'n sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd yn eu gwybodaeth bynciol ac yn eu medrau. Mae nodau ac amcanion clir i'r gwersi ynghyd â thempo sionc.

Yn yr ychydig o wersi sy'n arbennig o effeithiol, mae'r athrawon yn frwdfrydig ac yn llawn egni wrth gyflwyno ac ysgogi disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn o'r disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn darparu tasgau heriol er mwyn tanio diddordeb ac ymestyn gwybodaeth pob grŵp o ddisgyblion. Maent yn holi cwestiynau miniog a threiddgar sydd yn symbylu'r disgyblion i feddwl yn ddyfnach, ymestyn eu dealltwriaeth a chyfiawnhau eu safbwyntiau. Mae'r athrawon hyn yn meithrin medrau dysgu annibynnol y disgyblion yn arbennig o lwyddiannus.

Yn y lleiafrif o achosion lle nad yw'r addysgu mor effeithiol, nid yw athrawon yn cynnig digon o her i ddisgyblion. Wrth i'r wers ddatblygu, nid yw'r gweithgareddau yn ymestyn y disgyblion yn ddigonol. Yn ogystal, wrth gwestiynu, nid yw athrawon yn holi'n ddigon treiddgar i helpu disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u medrau meddwl yn llawn. Maent yn dueddol dim ond i wirio gwybodaeth yn hytrach na phrocio a dyfnhau dealltwriaeth. Nid yw disgywiliadau lleiafrif o athrawon o ran defnydd disgyblion o'r Gymraeg wrth drafod ymysg ei gilydd yn y gwersi yn ddigon clir.

Mae llawer o athrawon yn cynnig adborth llafar gwerthfawr ac adeiladol ar waith ac ymdrech disgyblion. Maent yn cylchu'r dosbarth yn ofalus i fonitro cynnydd y disgyblion, gan ymyrryd yn bwrpasol, lle bo angen. Mae'r mwyafrif ohonynt yn cynnig adborth ysgrifenedig buddiol sy'n rhoi arweiniad effeithiol i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith. Yn gyffredinol, mae disgywiliadau athrawon o ymateb disgyblion i adborth yn rhy amrywiol.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw ei dulliau creadigol o gynllunio'r cwricwlwm. O ganlyniad, mae'r cwricwlwm yn bodloni anghenion disgyblion unigol ar draws pob cyfnod allweddol yn effeithiol iawn. Trwy gynllunio manwl, darperir profiadau eang i ddisgyblion. Mae'r cwricwlwm pwrpasol i Flwyddyn 7 yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn gadarn drwy addysgu thematig a thraws gwricwlaidd. O sylwi nad yw disgyblion yn hyderus a chymwys wrth weithio gartref, mae'r ysgol wedi datblygu cwrs penodol 'Mentro' i hybu medrau annibynnol disgyblion a'u paratoi ar gyfer bywyd a dysgu gydol oes.

Mae'r ysgol yn 'ysgol arloesi'r cwricwlwm' ac yn treialu dulliau dysgu a chynllunio'n fwiadus ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Mae staff yr ysgol a'r ysgolion cynradd partner yn cydweithio'n agos i greu cwricwlwm heriol i Flwyddyn 7 sydd yn cwmpasu'r chwe maes dysgu a phrofiad ac yn sicrhau dilyniant o'r ysgol gynradd.

Cynigir amrywiaeth helaeth o ddewisiadau pynciol a chysiau academaidd a galwedigaethol i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Er mwyn darparu'r cyfleoedd cynhwysfawr hyn, mae'r ysgol yn gweithio'n greadigol gydag ysgol uwchradd Gymraeg a choleg cyfagos.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr sy'n atgyfnerthu'r cwricwlwm ac yn cyfoethogi profiadau ehangach disgyblion. Er enghraifft, trefnir ymweliadau a theithiau chwaraeon a cherddoriaeth, teithiau pynciol yn hanes ac addysg grefyddol, a gwaith maes daearyddiaeth a gwyddoniaeth. Yn ogystal, mae gweithgareddau diwylliannol, clybiau amrywiol, chwaraeon a theithiau tramor. Enghraifft nodedig yw'r daith i Wlad Belg oedd yn plethu astudiaethau o hanes Hedd Wyn â pherfformiad cerddorol wrth Gat Menin. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n arbennig at ddatblygiad cymdeithasol a phersonol disgyblion ac mae eu cyfranogiad ynddynt yn uchel.

Mae trefniadau pontio'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn effeithiol. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n bwrpasol o un cyfnod allweddol i'r llall ac yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd. Mae'r broses yn cynnwys cydweithio helaeth gydag ysgolion cynradd partner ar brosiectau i ddatblygu medrau disgyblion. Mae'r gwaith i ddatblygu'r fframwaith digidol ar draws yr ysgolion yn gryfder nodedig. Nodwedd arwyddocaol o'r trefniadau yw'r defnydd o arweinwyr digidol yn y cynradd a'r

uwchradd i gefnogi athrawon a chyd-ddisgyblion ar draws y cwricwlwm, yn dilyn hyfforddiant ar y cyd. Yn ychwanegol, datblygir medrau pwysig eraill, gan gynnwys entrepreneuriaeth a datrys problemau, yn effeithiol trwy heriau penodol.

Cynlluniau'r ysgol yn fedrus er mwyn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gadarn. Mae gofynion y fframweithiau llythrennedd a rhifedd wedi eu hymgorffori'n llwyddiannus o fewn cynlluniau gwaith lle bo'n briodol. Ceir arlwy gynhwysfawr o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd yn y ddwy iaith a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn darparu ystod effeithiol o strategaethau ymyrryd er mwyn cefnogi disgyblion sydd â medrau darllen a rhif gwan.

Mae cyfleoedd ymestynnol, cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm. Yn ychwanegol, mae'r wythnos fedrau gwyddoniaeth yn llwyddiannus wrth ddod â disgyblion at ei gilydd i gydweithio'n effeithiol a datblygu'u medrau datrys problemau, cyfathrebu a gweithio gydag eraill.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu Cymreictod yn gynhwysfawr. Mae'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, er enghraifft, yr eisteddfod, cyngherddau, cynyrchiadau ac ymweliadau yn gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'u hunaniaeth Gymreig a diwylliant Cymru.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Un o gryfderau Ysgol Bryn Tawe yw ei hethos gofalgar a chynhwysol. Mae lles disgyblion yn greiddiol i'w holl waith. Mae egwyddorion sylfaenol yr ysgol o barch a dyfalbarhad yn cael eu hamlygu yn ddyddiol yng ngweithredoedd y disgyblion a'r staff.

Mae'r ysgol yn cynnig gofal a chymorth cynhwysfawr ac eithriadol i ddisgyblion ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol. Mae gan holl staff yr ysgol adnabyddiaeth arbennig o ofynion y disgyblion.

Mae'r 'Uned Wella' yn darparu hafan ddiogel sy'n cynnig cefnogaeth arbenigol trwy ddarpariaeth fewnol ac allanol. Enghraifft nodedig yw'r ddarpariaeth sydd wedi'i deilwra at anghenion penodol disgyblion a'u teuluoedd, megis sesiynau i ferched sydd yn cael problemau cymdeithasol a'r berthynas ofalgar gyda rhieni mewn sefyllfaoedd bregus. Mae'r Uned Wella yn manteisio yn effeithiol iawn ar gysylltiadau gydag asiantaethau allanol, megis y 'Prince's Trust' a 'Tackle' (Gweilch yn y Gymuned) i gynnig cyfleoedd i weithio yn gymunedol. Mae gwaith yr Uned Wella yn sicrhau bod y disgyblion sydd yn mynychu yn cael profiadau cadarnhaol yn ystod eu hamser yn yr ysgol, ac yn gadael yn bobl ifanc gweithredol sydd yn barod am y cam nesaf.

Mae trefniadau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryf iawn ac yn sicrhau mynediad addas i'r cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth yn gynhwysfawr ac mae'r cynlluniau addysg unigol yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu cymorth ac ymyraethau teilwredig i gefnogi'r disgyblion. Mae'r Uned Mynediad i Ddysgu yn fedrus yn adnabod anghenion ac yn trefnu cefnogaeth bwriadus yn fewnol a gydag asiantaethau allanol, er enghraifft y Seicolegydd Addysg a'r Uned Ymddygiad. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn. Agwedd rhagorol o waith

yr Uned Mynediad i Ddysgu yw'r cyswllt gyda'r Uned Iaith a Lleferydd sydd yn yr ysgol. Rhoddir cefnogaeth arbennig iawn yma i ddisgyblion o Flwyddyn 6 i fyny, gan gynnwys disgyblion ag awtistiaeth, a hyfforddiant gwerthfawr i staff ar sut i'w cefnogi. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cryf. Gwneir defnydd effeithiol iawn o gymorthyddion, er enghraifft yn eu gwaith gyda grwpiau ymyrraeth yn y pynciau craidd.

Mae gan yr ysgol systemau trylwyr i olrhain cynnydd academiaidd, a gwneir defnydd effeithiol o'r wybodaeth i adnabod grwpiau targed. Darperir sesiynau teilwredig buddiol i'r grwpiau hyn. Mae hefyd systemau llwyddiannus i olrhain presenoldeb a lles disgyblion. Mae gwaith monitro effeithiol yr Uned Wella a'r Arweinwyr Dysgu yn cyfrannu'n sylweddol at bresenoldeb cyson uchel dros amser. Mae staff yn defnyddio'r systemau olrhain hyn yn effeithiol er mwyn adnabod disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni a gosod ymyraethau pwrpasol yn eu lle, megis y sesiynau mentora o fewn yr Uned Wella a gyda'r athrawes fentora.

Mae perthynas yr ysgol gyda rhieni yn hynod werthfawr. O ganlyniad i'r berthynas arbennig hon mae ymdeimlad cryf iawn o gymuned. Agwedd nodedig yw'r modd y mae'r ysgol yn cefnogi a chydweithio â rhieni er mwyn cynorthwyo disgyblion. Mae arlwy gynhwysfawr o sesiynau i rieni sydd yn cryfhau'r bartneriaeth gyda'r ysgol ac yn datblygu eu gallu i helpu eu plant. Enghreifftiau arbennig yw'r sesiynau i rieni disgyblion blwyddyn 6 sydd angen cefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a'r nosweithiau 'Anelu'n Uwch' a grwpiau targed i rieni Blwyddyn 10 ac 11. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n gyson ac mewn amryfal ffyrdd gyda rhieni. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni yn llwyr ymwybodol o holl waith a digwyddiadau'r ysgol, ynghyd â gwybodaeth sydd yn berthnasol i'w plant. Mae adroddiadau yr ysgol yn glir a phersonol ac yn cynnig targedau penodol er mwyn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd pellach. Mae'r ysgol yn cynnig arweiniad cryf i bob disgybl a'u rhieni a chyingor gwerthfawr wrth wneud penderfyniadau am eu dewis o bynciau yn yr ysgol ac am y cam nesaf yn eu bywyd.

Mae gwaith yr ysgol i hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn gryfder arbennig. Nodwedd gref yw'r arlwy o weithgareddau allgyrsiol apelgar sydd yn cyfrannu'n werthfawr at ddatblygu hunan hyder a gallu creadigol disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion wedi creu murluniau gwreiddiol o amgylch yr ysgol a dylunio ac addurno yr Uned Wella. Mae datblygiad disgyblion fel dinasyddion cyflawn yn cael ei ddatblygu'n llwyddiannus yn ystod cyfnodau bugeiliol pwrpasol a gwasanaethau. Yn y sesiynau hyn, mae cyfle iddynt fyfyrion ystyrlon ar eu credoau a'u gweithredoedd eu hunain ac eraill. Darperir cyfleoedd ysgogol a niferus i ddisgyblion gyfrannu at weithgareddau o fewn y gymuned ac i godi arian at wahanol elusennau.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Cynigir amrediad eang o weithgareddau corfforol poblogaidd gan gynnwys clybiau sy'n llwyddo i hyrwyddo ffitrwydd disgyblion a magu eu brwdfrydedd i gadw'n iach.

Mae cyfleoedd cyfoethog iawn i ddisgyblion leisio barn, ysgwyddo cyfrifoldebau ac ymgymryd â rolau arweiniol, er enghraifft trwy waith y chwe is-gyngor ysgol. Mae'r disgyblion yn chwarae rôl bwysig ac effeithiol wrth gyfrannu yn hyderus at bolisiau fel adborth ar yr addysgu a pholisi gwrth fwlio.

Cryfder nodedig yw'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol hynod gynhwysfawr sy'n cyfrannu'n arbennig o lwyddiannus at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Nodwedd eithriadol o'r rhaglen hon yw'r ffaith bod yr ysgol wedi teilwra'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mewn ymateb i'w barnau. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi darparu sesiynau ar iselder a phrofedigaeth yn sgil pryderon disgyblion ac, oherwydd eu diddordeb mewn materion llosg, mae siaradwyr gwadd wedi codi eu hymwybyddiaeth o amrywiaeth o bynciau yn cynnwys eithafiaeth a materion amgylcheddol. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion cyfrifol, goddefgar a pharchus.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol a doeth sydd yn uchel ei barch ymhlith y staff, y disgyblion a'r gymuned. Seilir ei weledigaeth ar 'anelu at ragoriaeth' trwy gynnig profiadau addysgol o safon uchel tra'n cynnal lles disgyblion a staff mewn ethos cynhaliol. Mae'n hyrwyddo'r egwyddor y dylai pawb anelu at 'y gorau y gallent fod' ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r uwch dîm arwain wedi sefydlu a chyfleu'r weledigaeth hon yn effeithiol i'r staff, disgyblion a rhieni.

Gweithreda'r pennaeth yn hyblyg a chreadigol wrth ymateb i anghenion yr ysgol. Enghraifft o hyn yw cynnig cyfleoedd gwerthfawr i staff ymuno dros dro gyda'r uwch dîm arwain er mwyn arwain ar flaenoriaethau traws ysgol. Trwy ddyrannu cyfrifoldebau'n strategol i staff yn y modd hwn mae'n llwyddo i greu tîm effeithiol sydd yn coleddu a gwireddu gwerthoedd creiddiol yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol iawn. Maent yn modelu ac yn hybu gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol ac uchelgeisiol yn eu gwaith pob dydd. Mae arweiniad cadarn y pennaeth a'r uwch dîm arwain wedi sicrhau bod y disgyblion a'r staff yn hynod o falch o fod yn rhan o gymuned agos ac agored Ysgol Bryn Tawe. Trwy arweiniad egnïol yr uwch dîm a chyd-weithio llwyddiannus maent wedi llwyddo i sicrhau safonau cadarn, lefelau uchel o les a chyfranogiad disgyblion, a gofal, cymorth ac arweiniad o'r ansawdd uchaf.

Mae gan lawer o arweinwyr canol ddealltwriaeth gadarn o'u rolau. Maent yn dadansoddi data perfformiad yn ddeallus ac yn ei ddefnyddio i adnabod cryfderau a meysydd clir sydd angen eu gwella o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Serch hynny, nid yw lleiafrif o arweinwyr canol yn ddigon effeithiol yn eu gwaith i wella ansawdd yr addysgu o fewn eu hadrannau.

Ceir strwythurau clir o gyfarfodydd llinell, adrannol a staff sydd yn sicrhau bod y ffocws yn gyson a phenodol ar les, safonau a chynnydd disgyblion. Mae llinellau atebolrwydd yn glir ac mae uwch arweinwyr yn gosod disgwyliadau eglur o ran yr hyn a ddisgwylir gan arweinwyr canol ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Trwy gynnig adborth adeiladol a chyson, caiff arweinwyr canol eu herio a'u cefnogi yn effeithiol gan eu rheolwyr llinell.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad cadarn a grymus. Ar sail dadansoddi data perfformiad unigol pob aelod o staff, pennir amcanion clir a mesuradwy. Blaenoriaethir meysydd penodol o'u haddysgu sydd angen eu mireinio er mwyn sicrhau gwelliannau.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn brofiadol a chefnogol iawn. Gwneir defnydd effeithiol o brofiad ac arbenigeddau aelodau o'r corff llywodraethol i gefnogi ac i herio'r ysgol. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda ac mae ganddynt wybodaeth drylwyr am ddata perfformiad a'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae ganddynt gysylltiadau defnyddiol ag adrannau penodol ac maent yn chwarae eu rôl fel cyfaill beirniadol yn effeithiol iawn. Mae'r corff wedi gweithredu'n gadarn i sicrhau bod adnoddau a chyllid angenrheidiol yn cael eu darparu er mwyn cynnig profiadau cyfoethog i bob disgybl a chynnal safonau.

Mae'r ysgol wedi datblygu cylch clir a thrylwyr o weithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Mae hyn yn gweithredu ar sawl haen o fewn bywyd yr ysgol. Gyda chefnogaeth gadarn yr uwch dîm rheoli mae adrannau, timau bugeiliol ac athrawon unigol yn arfarnu eu perfformiad yn onest a manwl. Yn ogystal, defnyddir fforymau triawdau arweinwyr canol rhwng yr ysgol a dwy ysgol gyfun gyfagos er mwyn rhannu arfer dda. Mae hyn yn rhoi cyfle gwerthfawr iddynt fyfyrwyr a rhannu deialog broffesiynol gydag arweinwyr eraill.

Mae ystod eang o weithgareddau hunanwerthuso a phrosesau sicrhau ansawdd pwrpasol. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys dadansoddiadau trylwyr o ddata, arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau a chyfleoedd cynhwysfawr i ddisgyblion, staff a rhieni leisio eu barn. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddarlun clir a gonest o'r rhan fwyaf o agweddau o waith yr ysgol. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddarlun digon cywir o safonau medrau'r disgyblion. Mae'r prosesau hyn yn sylfaen gadarn i arweinwyr allu adnabod arfer dda ac i benderfynu pa agweddau sydd angen sylw.

Cryfder nodedig yw'r effaith gaiff llais y disgybl ar ddarpariaeth adrannol o ran eu profiadau dysgu. Er enghraifft, ar gais y disgyblion wrth astudio'r chwyldro diwydiannol yn hanes newidiwyd y ddarpariaeth i ystyried y datblygiadau yn Abertawe er mwyn dysgu mwy am effaith hyn ar eu treftadaeth leol.

Mae gan arweinwyr ar bob lefel ddarlun clir o'r rhan fwyaf o'r cryfderau ac agweddau i'w gwella yn eu meysydd penodol. Mae'r cynlluniau gwella'r ysgol ac adrannol yn talu sylw priodol i gynnydd disgyblion ac i wella safonau addysgu. Fodd bynnag, nid yw'r gweithredoedd bob amser yn ddigon miniog er mwyn codi safonau disgyblion a gwella ansawdd yr addysgu. Mae prosesau cadarn drwy drefniadaeth rheolaeth llinell dynn er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau.

Ceir ethos cynhaliol a diwylliant cryf o gefnogi dysgu proffesiynol. Nodwedd gref yw'r cyfleoedd i athrawon weithio mewn parau proffesiynol i gyflawni gwaith ymchwil a gweithredu arno. Trwy hyn, darperir cyfleoedd gwerthfawr i staff gyfoethogi eu dealltwriaeth o addysgeg ac addysgu rhagorol ac iddynt arbrofi gyda syniadau ar sail ymchwil.

Mae cydweithio cadarnhaol iawn rhwng yr ysgol a'i hysgolion cynradd partner. Hefyd, mae cydweithio proffidiol ag ysgolion eraill yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ynghylch arferion effeithiol i ysgogi gwelliannau a rhannu arfer dda.

Mae'r pennaeth, rheolwr busnes a'r llywodraethwyr yn cynllunio gwariant yn synhwyrol. Gwneir penderfyniadau doeth i sicrhau bod gwariant yn canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yr ysgol. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'r staff a'i hadnoddau ffisegol. Gwneir defnydd pwrpasol o grantiau i gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol.

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/07/2019